Coleg Gwent

CANLLAW LLAWN AMSER 2021/22

ER MWYN RHAGORI

Un o'r colegau sy'n perfformio orau yng Nghymru*

CREU EICH STORI O LWYDDIANT

CROESO I COLEG GWENT

Rwy'n hynod o falch eich bod yn ystyried astudio yng Ngholeg Gwent. Yn y llyfryn hwn, fe ddewch o hyd i'r ystod eang o gyrsiau llawn amser cyffrous a gynigir gennym; 248 i fod yn fanwl gywir.

Rwy'n ffyddiog y dewch o hyd i gwrs sy'n iawn i chi - p'un ai ydych yn dewis astudio Level A neu un o'n cyrsiau galwedigaethol diddorol, mae yna rywbeth at ddant pawb. Rydym yn cynnig cyrsiau ar draws pob un o'n pum campws felly gallwch fod yn siŵr o ddod o hyd i un y gallwch ei astudio ar garreg eich drws.

Mewn blwyddyn yn wahanol i unrhyw un yr ydym erioed wedi ei hwynebu o'r blaen, rydym wedi parhau i fod yn un o golegau sy'n perfformio orau yng Nghymru er gwaethaf y heriau COVID-19. Rydyn ni wedi dal ati i ddysgu ac rydyn ni'n parhau i roi diogelwch dysgwyr wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud, fel gallwch chi deimlo'n ddiogel yn amgylchedd y coleg, mwynhau eich profiad dysgu llawn, a chael mynediad at gyfleoedd gwych.

Rydym yn cael ei ystyried fel un o'r colegau sy'n perfformio orau ar gyfer dysgu galwedigaethol yng Nghymru, rydym yn falch o fod yn rhan o raglen arloesol Canolfan Ragoriaeth DU, ac mae llawer o'n dysgwyr wedi llwyddo i gyrraedd rowndiau terfynol y Cystadleuaeth Sgiliau Cymru eleni er gwaethaf y cyfyngiadau COVID-19.

Rydym yn ymfalchïo yn ein Coleg. Mae'n lle cyfeillgar, croesawgar ac arloesol i astudio. Rydym yn cynnig addysg arobryn, cymwysterau i'ch helpu i gael yr yrfa o'ch dewis gweithgareddau allgwricwlaidd y gallwch eu hychwanegu at eich CV.

Felly, cymerwch gip ar y cyrsiau sydd ar gael a gwnewch gais heddiw! Os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr oeddech yn chwilio amdano, rhowch galwad i'n tîm Recriwtio Myfyrwyr ar 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg). Gobeithiwn eich gweld cyn hir.

Guy Lacey
Pennaeth
a Phrif Weithredwr

*Adroddiad ar Ddeilliannau Dysgwyr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru 2016/17

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

CYNNWYS

2 Croeso
4 Digwyddiadau Agored
6 Dewis y cwrs gywir i chi
8 Pam dewis Coleg Gwent?
10 Ein campysau
12 Bywyd yn Coleg Gwent
14 Cyfleoedd
16 Cefnogi chi
18 Dysgu yn Gymraeg ac yn ddwyieithog
19 Mathemateg, Saesneg a Gweithgareddau sgiliau
20 Cyrsiau Lefel Prifysgol
21 Rhan amser
22 Prentisiaethau
24 Lefel A
26 Cyfrifeg, Busnes a'r Gyfraith
28 Amaethyddiaeth a Gofal Anifeiliaid
30 Celf a Dylunio, Cyfryngau, Ffotograffiaeth
32 Arlwyo a Lletygarwch
34 Cyfrifiadura a Thechnoleg Ddigidol
36 Coleg Seiber Cymru
37 Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)
38 Adeiladu
40 Peirianneg a Modurol
42 Trin Gwallt a Therapi Harddwch
44 Iechyd, Gofal a'r Blynyddoedd Cynnar
46 Sgiliau Byw'n Annibynnol
48 Cerdd, Drama a Dawns
50 Llwybr at radd/prifysgol
52 Gwyddoniaeth
54 Chwaraeon, Teithio a Gwasanaethau Cyhoeddus
56 Colegau Gyrfa

DIGWYDDIADAU AGORED

ER MWYN PAWB

Mae ein digwyddiadau agored yn cynnwys cyrsiau amser llawn a rhan amser, prentisiaethau a cymwysterau prifysgol.

Mae croeso i bawb ac anogir i ymwelwyr gofrestru trwy ein gwefan i fynychu un o'n digwyddiadau agored, ond mae hefyd croeso i chi mynychu heb cofrestri. Mae pob un o'n campysau yn cynnig pynciau gwahanol, felly yn dibynnu ar ba bynciau rydych chi am eu trafod, dylech ymweld a'r campws perthnasol.

Am ymuno â un o'n digwyddiadau agored rhithwir byw neu ar campws?

Cymerwch gip ar ein gwefan i ddysgu mwy a chofrestru.

www.coleggwent.ac.uk/agored

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

Ymunwch â ni yn un o'n digwyddiadau agored ar y dyddiadau canlynol:

Dyddiad	Amser
Dydd Mawrth 3ydd Tachwedd 2020 (Rhithwir)	17:00 & 18:00
Dydd Mercher 3ydd Chwefror 2021	17:00 - 19:30
Dydd Sadwrn 20fed Mawrth 2021	10:00 - 13:00
Dydd Mercher 28ain Ebrill 2021	17:00 - 19:30
Dydd Mawrth 29fed Mehefin 2021	17:00 - 19:30

*Sylwch mae'n posib na fydd ein digwyddiadau agored personol yn mynd mynd ymlaen oherwydd arweiniad y llywodraeth ynghylch COVID-19. Ewch i'n gwefan yn nes at yr amser i ddysgu mwy am ein digwyddiadau agored.

Rydym nawr hefyd yn cynnal

DIGWYDDIADAU AGORED RHITHWIR

Mae ein platfform digwyddiad agored ar gael

24 AWR Y DYDD

365 DYDD Y FLWYDDYN

YN EIN DIGWYDDIADAU AGORED PERSONOL A RHITHWIR GALLWCH:

- Dysgu mwy am gwrs neu faes pwnc gan ein tiwtoriaid arbenigol
- Darganfod am yrfaoedd posib
- Cymeryd gip o gwmpas y campws, cyfleusterau ac ystafelloedd dosbarth
- Dysgu am y broses ymgeisio a gwnewch gais yn y fan neu ar-lein
- Mynnwch wybodaeth am gymorth ariannol a theithio
- Darganfod am ein gwasanaethau cymorth

DEWIS Y CWRS GYWIR I CHI

ER EICH MWYN CHI

Rydym yn gwybod bod dewis eich cam nesaf yn gallu bod yn ddryslyd ac yn dipyn o her weithiau.

Dylai'r canllaw hwn roi rhai o'r atebion yr ydych yn chwilio amdanynt, ond os ydych yn dal i fod yn ansicr, cysylltwch â ni! Mae ein tîm Recriwtio Myfyrwyr ar gael o Ddydd Llun i Ddydd Iau 8.30yb - 4.30yp a Dydd Gwener 8.30yb - 4yp, wrth law ac yn barod i helpu.

DYMA RAI PETHAU I'W HYSTYRIED WRTH DDEWIS EICH CWRS:

Rydych yn fwy tebygol o basio'ch cwrs os ydych yn dewis pwnc chi'n mwynhau!

Bydd dewis rhywbeth yr ydych yn dda ynddo yn golygu eich bod yn fwy tebygol o gael graddau da a chwblhau eich cwrs.

Meddyliwch beth yr hoffech ei wneud ar ôl gadael coleg - Prifysgol? Cael swydd? Hyfforddiant pellach? A fydd eich cwrs yn eich helpu i gyflawni hynny?

SUT I WNEUD CAIS

1. Dewis eich cwrs
2. Gwnewch gais ar-lein
3. Mynychu cyfweliad /Derbyn cynnig
4. Dewch i sesiwn gofrestru/cynefino*
5. Dechreuwch yn y coleg

*Fel rhan o'r broses cofrestru, byddwch yn cwblhau asesiad WEST - gweler tudalen 19 am fwy o wybodaeth.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

CANLLAW I'R CYMWYSTERAU

Ddim yn siŵr pa gymhwyster yr ydych yn chwilio amdano neu pa lefel i gychwyn arni? Dyma ganllaw i'ch helpu i ddewis y lefel gywir a dangos y math o swydd y gallai arwain ati:

Lefel	Cymhwyster			Lefel swydd
7	Gradd Meistr/Doethuriaeth		NVQ 5	Gweithiwr proffesiynol siartredig
6	Gradd Anrhydedd		Prentisiaeth Uwch NVQ 4	
5	Gradd sylfaen, HND	Diploma mewn Addysg Uwch		Gweithiwr proffesiynol ym maes rheoli
4	HNC	Tystysgrif Addysg Uwch		
3	Diploma Estynedig Lefel 3 Diploma Lefel 3 Diploma Atodol Lefel 3 Tystysgrif Lefel 3	3 Safon Uwch 2 Safon Uwch 1 Safon Uwch 1 Safon UG	Uwch Brentisiaeth NVQ 3	Technegydd uwch, Goruchwyliwr medrus
2	Diploma Lefel 2 Tystysgrif Estynedig Lefel 2 Tystysgrif Lefel 2	4 TGAU (A*-C) 3 TGAU (A*-C) 2 TGAU (A*-C)	Prentisiaeth NVQ2	Gweithredydd lled-fedrus
1	Tystysgrif neu Ddiploma Lefel 1	TGAU (D-G)	Cynllun hyfforddi-ant NVQ1	Gweithredydd
Entry	Sgiliau Sylfaenol/Sgiliau Bywyd			
	Dysgu galwedigaethol	Dysgu academaidd	Dysgu seiliedig ar waith	

Mae ein cyfradd llwyddo Lefel A wedi bod yn fwy na chyfartaleddau'r DU a Chymru am y 5 mlynedd diwethaf

100%

Cyfradd pasio mewn 30 o bynciau Safon Uwch

Cyfradd basio uwch

ar gyfer cyrsiau galwedigaethol

Mae ein cyrsiau galwedigaethol Lefel 3 yn denu pwyntiau Tariff UCAS, yn union fel Safon Uwch. Mae'r nifer yn dibynnu ar eich cwrs. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn: **www.ucas.com/tariff**

Nodyn; Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

PAM DEWIS COLEG GWENT?

ER MWYN UNIGOLION

10 rheswm dros ddewis Coleg Gwent...

01

Stori lwyddiant

Rydym yn cyflawni cyfraddau llwyddo rhagorol (gweler tudalen 7).

02

Cwrdd â'r arbenigwyr

Mae ein tiwtoriaid profiadol yn arbenigwyr yn eu maes felly byddwch yn dysgu gan y goreuon.

03

Cyflawni eich amcanion

Llwybrau cynnydd a llwybrau llwyddiant clir - p'un ai ydych yn symud ymlaen at y lefel nesaf neu'n astudio un o'n Graddau Sylfaen, byddwn yn eich helpu i gyflawni eich amcanion gyrfaol.

04

Dringo'r ysgol yrfaoedd

Mae gennym gysylltiadau cryf gyda chyflogwyr sy'n darparu profiad gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd i fynd ar leoliad.

05

Yma i chi

Cefnogaeth i'n dysgwyr i gyd fel y gallwch ragori yn eich cwrs, ynghyd â chymorth dysgu ychwanegol i'r rhai gydag anawsterau dysgu a/neu anableddau.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

06 Bywyd cymdeithasol

Gallwch fwynhau bywyd cymdeithasol gwych gyda'n holl weithgareddau allgwricwlaidd; bydd slot pwrpasol ar gyfer y rhain yn eich amserlen.

07 Cyfleusterau arbenigol

Mae gennym gyfleusterau ar y safle i'ch helpu i ymarfer y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys salonau gwallt a harddwch, stiwdios recordio, canolfan profi nwy ACS, canolfan Baxi, canolfan fodurol ATA, tŷ bwyta masnachol (Morels), theatrau perfformio a fferm weithredol!

08 Llais Myfyrwyr

Rydym yn gwrando arnoch ac yn defnyddio eich adborth i wella profiad y coleg - rydym wedi ennill gwobrau cenedlaethol am ein gweithgareddau llais dysgwyr.

09 Digonedd o ddewis

Mae yna ddigonedd o gyrsiau i ddewis o'u plith - rydym yn cynnig 32 pwnc Safon Uwch a thros 150 o gyrsiau galwedigaethol llawn amser, yn ogystal â 36 cwrs lefel prifysgol.

10 Dilynwch eich angerdd

Byddwch yn astudio rhywbeth y mae gennych CHI ddiddordeb ynddo, a ddewiswyd gennych CHI ac yr hoffech CHI ganlyn gyrfa ynddo.

EIN CAMPYSAU

Campws Brynbuga

Ein canolfan wledig: campws Brynbuga yw cartref ein cyrsiau amaethyddol, chwaraeon, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus. Wedi'i amgylchynu gan gefn gwlad godidog a'i leoli ar gyrion tref hanesyddol Brynbuga, dyma'r campws i chi os oes gennych ddiddordeb mewn natur a'r awyr agored. Ymhlith y cyfleusterau newydd ar y safle mae Llyfrgell o'r radd flaenaf a chaffi i fyfyrwyr. Gyda fferm weithredol 296 erw, canolfannau anifeiliaid a cheffylau, campfa newydd ei hadnewyddu, cyfleusterau chwaraeon ac addysg awyr agored, rydym yn croesawu oddeutu 850 o fyfyrwyr o bob cwr o'r DU bob blwyddyn. Rydym o fewn cyrraedd hawdd i Drefynwy, Y Fenni, Cas-gwent a Chasnewydd, ac yn agos at draffordd yr M4, sy'n gyfleus i fyfyrwyr sy'n teithio o bell.

Parth Dysgu Torfaen

Gan gynnig ystod eang o bynciau Safon Uwch a chyrsiau addysg alwedigaethol, bydd ein campws newydd yng Nghwmbrân yn agor ym mis Ionawr 2021.

Yn gartref i bob darpariaeth Lefel A drwy gyfrwng Saesneg yn Torfaen, bydd y ganolfan hefyd yn cynnig cyrsiau galwedigaethol lefel 2 a 3, Graddau Sylfaen a'r Bagloriaeth Cymru.

Mae gan y ganolfan gyfleusterau o'r radd flaenaf, gan gynnwys neuadd berfformio, ystafell gerddoriaeth a chyfryngau, stiwdio gelf, a llawer mwy! Wedi'i leoli wrth ymyl Morrisons yng nghanol Cwmbran, mae'n hawdd ei gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mae ganddo faes parcio ar y safle.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

Campws Dinas Casnewydd

Gan gynnig ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd, yn gwbl gydnaws â chyfleoedd cyflogaeth lleol yn yr ardal, mae gan gampws Dinas Casnewydd gyfleusterau ardderchog. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdai peirianneg ac adeiladu wedi'u cyfarparu'n dda, stiwdios celf, labordai gwyddoniaeth a salonau trin gwallt a harddwch, yn ogystal ag ystafelloedd technoleg ddigidol arloesol. Mae ein campws mewn lleoliad gwych, yn daith o ychydig funudau o ganol y ddinas. Cyn cyfyngiadau COVID-19, mae Casnewydd wedi bod yn adnabyddus am ein sin ddiwylliannol fywiog, o wyliau i ddigwyddiadau chwaraeon byd-eang, pryd bynnag mae'r cyfyngiadau'n cael eu codi, bydd digon i'w fwynhau! Mae Casnewydd yn lle gwych i fod yn fyfyriwr.

Campws Crosskeys

Mae ein campws mwyaf yn cynnig dros 30 o bynciau Safon Uwch, cymwysterau gradd ac ystod gyfoethog ac amrywiol o gyrsiau galwedigaethol.

Mae'r campws hefyd yn cynnwys cyfleusterau theatr rhagorol ar gyfer y celfyddydau perfformiadol, tŷ bwyta a salon gwallt a harddwch sy'n agored i'r cyhoedd, offer o safon diwydiant ar gyfer ei gyrsiau gweithgynhyrchu uwch; Hyb Addysg Uwch i'r rhai sy'n astudio cymwysterau lefel gradd a llyfrgell gyda ystafell cyfrifiaduron Mac, llyfrau a mynediad i gyfnodolion ar-lein.

Mae Campws Crosskeys hefyd yn gartref i Academi Rygbi Iau'r Dreigiau, lle gall myfyrwyr ddatblygu eu sgiliau rygbi ochr yn ochr â'u cwrs dewisol!



Parth Dysgu Blaenau Gwent

Ers iddo agor yn 2012, mae Parth Dysgu arloesol Blaenau Gwent wedi dod yn gartref i holl addysg Safon Uwch y sir. Mae cyfleusterau o'r radd flaenaf y ganolfan, sydd hefyd yn cynnig ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ac addysg uwch, yn cynnwys gweithdai adeiladu pwrpasol; ceginau proffesiynol; stiwdios recordio; ystafelloedd cyfrifiaduron Mac; ardal berfformio; salonau gwallt a harddwch sy'n agored i'r cyhoedd; a llyfregell. Mae hyd yn oed gennym car rasio ac awyren!

BYWYD YN COLEG GWENT

ER MWYN MYFYRWIR

Cefnogi Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn Coleg Gwent, mae ein gwerthoedd craidd yn hyrwyddo parch a goddefgarwch i bawb. Rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein coleg yn fan y bydd pawb, yn staff ac yn ddysgwyr, yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu. Dylai pob un ohonom ddisgwyl i leoliad dysgu fod yn gynhwysol ac yn llawn potensial i newid bywydau pobl er gwell.

EIN SIARTER AMRYWIAETH

- **DIM BEIRNIADAETH** sylweddoli ein bod oll yn
- **MAE YMDDYGIAD YN BWYSIG**
- **GWERTHFAWROGI SAFBWYNTIAU ERAILL**
- **PARCH AT BAWB**
- **DERBYN NAD OES CYWIR NAC ANGHYWIR**

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

Menter, Cyflogadwyedd ac Entrepreneuriaeth

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Awydd dod yr Alan Sugar neu Richard Branson nesaf? Cymerwch ran mewn gweithgareddau menter a gadewch i'ch entrepreneuriaeth ffynnu! Cymerwch ran mewn sesiynau model rôl, cydweithiwch â chwmniau neu cymerwch ran mewn digwyddiadau mewnol ac allanol. Sicrhewch gefnogaeth Gyrfaoedd Cymru a rhaglenni cyflogadwyedd sy'n helpu i lunio CVs, cynnig ffug gyfweliadau a darparu lleoliadau gwaith. Mae gweithgareddau gydol y flwyddyn yn eich caniatáu i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer dyfodol llwyddiannus.

Ymunwch â'ch Undeb Myfyrwyr!

Beth am ymuno ag Undeb y Myfyrwyr ar eich campws al leisio'ch barn? Gallwch bleidleisio dros swyddogion etholedig neu fod yn un eich hun! Fel aelod o'r undeb gallwch gymryd rhan mewn codi arian, digwyddiadau, ymgyrchoedd a fforymau, a llawer mwy! Beth am gynrychioli llais y dysgwyr trwy fod yn gynrychiolydd dosbarth? Lleisiwch eich barn a gwnewch wahaniaeth!

Arbedwch £££

Cofrestrwch am gerdyn TOTUM, cerdyn disgownt myfyrwyr rhif 1 y DU, a chael gafael ar fargeinion myfyrwyr unigryw! Byddwch hefyd yn cael eich Cerdyn Adnabod prawf oedran achrededig llawn yn rhad ac am ddim gyda'ch cerdyn!

Ychydig yn YCHWANEGOL

Gall pob myfyriwr gymryd rhan gyda CG Ecstra; gallwch ymuno â gweithgareddau a gwirfoddoli, chwaraeon a ffitrwydd, clybiau a chymdeithasau, cerddoriaeth a drama a Gwobr Dug Caeredin. Bydd gennych slot pwrpasol yn eich amserlen ar gyfer y gweithgareddau hyn. Mae hefyd yn gyfle gwych i wneud ffrindiau newydd, ennill sgiliau bywyd gwerthfawr, dod yn fwy annibynnol a gwella eich cyflogadwyedd!

CYFLEOEDD

YMUNWCH Â THÎM BUDDUGOL

Gall unrhyw fyfyriwr ymuno â'n timau chwaraeon, boed ar lefel elit neu ddim ond i gadw'n ffit ac iach. Os ydych yn teimlo'n gystadleuol, mae modd i chi ymuno â thîmau rygbi, pêl-droed neu bêl-rwyd y coleg, sy'n cystadlu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

PENCAMPWRIAETHAU CHWARAEON COLEGAU PRYDAIN

Mae'r coleg yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Chwaraeon Colegau Prydain bob blwyddyn, ac yn ennill llawer o wobrau bob tro. Yn gystadlaethau tîm fel tenis a phêl-rwyd ac yn rhai unigol megis trampolino a rhedeg traws gwlad - mae ein myfyrwyr ymhlith y goreuon yn y DU. Mae nifer o'n tiwtoriaid hefyd wedi ennill capiau dros Gymru a medalau niferus yn eu meysydd eu hunain.

ACADEMI DREIGIAU IAU CASNEWYDD GWENT

Campws Crosskeys yw cartref Academi Dreigiau Iau Casnewydd Gwent. Yma caiff myfyrwyr 16 awr yr wythnos o hyfforddiant gan hyfforddwyr y Dreigiau, ochr yn ochr ag astudio ar unrhyw un o gampysau eraill Coleg Gwent. Mae modd dilyn y rhaglen hyfforddiant hon gyda phynciau Safon Uwch neu gyrsiau galwedigaethol, yn rhan o raglen ddatblygu lawn amser dros ddwy flynedd.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

DOSBARTH RHYNGWLADOL

Profwch eich sgiliau trwy gystadlu yn WorldSkills UK a Chystadleuaeth Sgiliau Cymru! Yn gyfle i rwydweithio gydag arbenigwyr yn y diwydiant, byddwch yn datblygu sgiliau megis datrys problemau a gweithio o dan bwysau, gan gystadlu ar lefel ryngwladol! Rydym yn cael ein henwi'n aml yn neg uchaf y tabl cynghrair o enillwyr, ac rydym wedi cael ein dewis i fod yn un o ddim ond dau goleg yng Nghymru i fod yn Ganolfan Ragoriaeth Worldskills UK.

Rhagor o wybodaeth yn:

www.coleggwent.ac.uk/worldskills

YN EICH CEFNOGI

Os oes angen cymorth arnoch gallwch siarad gyda'ch tiwtor personol neu gysylltu â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) y campws.

TIWTORIAID PERSONOL

Fel myfyriwr llawn amser bydd gennych eich Tiwtor Personol eich hun a fydd yn cwrdd â chi i adolygu eich cynnydd academaidd, rhoi cefnogaeth, cynnig arweiniad ac anogaeth i sicrhau eich bod yn cwblhau pob agwedd o'ch cwrs yn llwyddiannus. Yn ogystal ag edrych ar ôl eich lles cyffredinol a bod yn rhywun y gallwch ymddiried ynddynt a dibynnu arnynt, byddant hefyd yn eich paratoi ar gyfer eich camau nesaf mewn coleg, prifysgol neu gyflogaeth.

Y RHWYDWAITH SEREN

Rydym eisiau sicrhau bod pob un o'n myfyrwyr yn cyflawni eu potensial. Mae'r Rhwydwaith Seren yn darparu sylfaen arbennig i bob myfyriwr a gafodd raddau A* yn TGAU i ymgeisio am le gyda phrifysgolion cystadleuol a dethol Grŵp Russell (grŵp o brifysgolion gyda ffocws cyfunol ar ymchwil ac enw da o ran cyflawniad academaidd). Nod y gweithgareddau a ddarperir yw hybu hyder a gwytnwch, yn ogystal ag ehangu dealltwriaeth o'r pwnc, eich helpu i ddatblygu'r nodweddion y mae prifysgolion Grŵp Russell yn eu gwerthfawrogi ac yn chwilio amdanynt yn eu hymgeiswyr.

CYMORTH AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Os oes gennych anhawster dysgu a/neu anabledd, gallwn ddarparu llawer o gymorth. Gallai hyn gynnwys:

- Cymorth yn y dosbarth gan Gynorthwyydd Cymorth Ychwanegol
- Sesiynau ychwanegol i helpu gydag aseiniadau a gwaith cwrs
- Cymorth gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu (i fyfyrwyr byddar)
- Cymorth dyslecsia
- Defnydd o'r ystafell Ysbrydoli i Lwyddo
- Sesiynau ARROW i'ch helpu i wella eich sgiliau darllen a sillafu
- Defnydd o feddalwedd argaeledd gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol
- Trefniadau mynediad i arholiadau

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

CEFNOGAETH LLESIANT

Eich iechyd a'ch lles chi yw ein blaenoriaeth. Byddwn yn sicrhau eich bod yn ddiogel yn y coleg ac ar leoliadau gwaith ac yn eich cefnogi gydag anawsterau personol. Gallwch ddefnyddio ein gwasanaethau cwnsela a chaplaniaeth cyfrinachol a gallwn hefyd eich rhoi chi mewn cysylltiad ag asiantaethau allanol a allai eich helpu.

Os hoffech wybod mwy am y gefnogaeth helaeth a gynigiwn, cysylltwch â'r Gwasanaethau Dysgwyr ar eich campws neu cymeryd gip o ein wefan.

Cysylltwch â'r Gwasanaethau Dysgwyr yn:
www.coleggwent.ac.uk/cymorth

togetherall

Mae Togetherall yn gymuned ar-lein ar gyfer cymorth iechyd meddwl, gyda mynediad 24/7 at weithwyr proffesiynol hyfforddedig. Gan gynnig arbenigedd clinigol, cefnogaeth cymheiriaid ac amgylchedd diogel ar-lein, ei nod yw gwella lles meddyliol mewn ffordd gynhwysol ac anfeirniadol.

Gall aelodau gefnogi ei gilydd yn ddienw, ac mae hefyd yn cynnwys hunanasesiadau, cyrsiau hunan-dywys ac offer creadigol i'ch helpu chi i reoli cyflyrau iechyd meddwl, cymryd rheolaeth, teimlo'n well a chynnal lles meddyliol cadarnhaol tra'ch bod chi yn y coleg.

TEITHIO A THRAFNIDIAETH

Ddim yn siŵr sut yr ydych am deithio i'r coleg? Mae gennym gynllun pas bws i fyfyrwyr sy'n eich galluogi i gael prisiau gostyngol wrth deithio yn ôl ac ymlaen o'n campysau! Byddwch hefyd yn cael prisiau gostyngol gyda'r nosau, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau (ac eithrio gwyliau'r haf).

Am fwy o wybodaeth am y broses ymgeisio, ewch i:
www.coleggwent.ac.uk/trafnidiaeth

CYLLID

Yn dibynnu ar eich oedran a'ch sefyllfa ariannol, gallech fod yn gymwys am fwy o gymorth nag y tybioch. Mae'r cyllid y gallech fod yn gymwys amdano yn cynnwys:

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC)
- Cronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF)
- Ymddiriedolaeth Goffa David Davies
- Cronfa Cymorth Dewisol (DAF) yng Nghymru
- Gwobr Datblygu Ymddiriedolaeth y Tywysog

Ceir manylion llawn yn:
www.coleggwent.ac.uk/cyllid

Y LLYFRGELL

Yn ogystal â llyfrau, cyfnodolion, eLyfrau a DVDs gallwch ddefnyddio cyfrifiaduron personol neu gysylltu eich dyfais eich hun a'n Wi-Fi am ddim yn y Llyfrgell. Mae staff wrth law i'ch helpu chi i ddod o hyd i adnoddau a chael mynediad at wasanaethau eraill fel llungopïo, lamineiddio a rhwymo.

DYSGU YN GYMRAEG AC YN DDWYIEITHOG

Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn bwysig i ni.

Rydym yn annog holl aelodau cymuned y coleg, boed yn siaradwyr Cymraeg ai peidio, i ddeall pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel sgil bersonol ac addysgol yn ogystal â sgil gyflogadwyedd ar gyfer y dyfodol.

AR HYN O BRYD RYDYM YN CYNNIG

- ✔ Y cyfle i astudio rhai modiwlau ar ddetholiad o gyrsiau yn ddwyieithog
- ✔ Y cyfle i astudio Cymraeg fel ail iaith
- ✔ Cefnogaeth yn yr iaith Gymraeg neu gefnogaeth astudio'n ddwyieithog drwy 'HWB Cymraeg' a gweithgareddau cymdeithasol drwy'r 'Clwb Cymraeg'
- ✔ Y cyfle i astudio cyrsiau Gofal Plant ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg
- ✔ Y cyfle i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a defnyddio'r iaith yn Coleg Gwent drwy ddod yn Fydi Cymraeg
- ✔ Yr opsiwn i ysgrifennu aseiniadau ac ymgymryd ag aseiniadau ac arholiadau yn Gymraeg (pan fo'r bwrdd arholi yn gallu darparu papurau arholi yn Gymraeg)
- ✔ Darpariaeth i gael mynediad at diwtorialau yn Gymraeg
- ✔ Lleoliadau a phrofiad gwaith cyfrwng Cymraeg
- ✔ Y cyfle i ennill sgiliau hanfodol neu allweddol yn ddwyieithog neu yn Gymraeg

Find out more at:

www.coleggwent.cymrucg

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk



MATHEMATEG, SAESNEG A GWEITHGAREDDAU SGILIAU

Efallai nad Mathemateg a Saesneg yw hoff bynciau pawb, ond maent yn rhai o'r sgiliau pwysicaf y gallwch eu cael. P'un ai ydych yn anfon neges destun i'ch ffrind neu'n talu am eich siopa, rydych yn defnyddio'r offer hyn bob dydd.

Maent yn sgiliau y mae cyflogwyr yn eu disgwyl ac yn eu gwerthfawrogi pan fyddwch yn chwilio am swydd.

MATHEMATEG A SAESNEG

Yng Ngholeg Gwent, rydym yn canolbwyntio ar addysgu'r sgiliau sy'n mynd i fod o fudd i chi pan fyddwch yn gwneud cais i brifysgol, yn cael swydd, neu'n symud ymlaen i astudiaeth bellach. Oherwydd hyn, mae pob cwrs a gynigir gennym yn cynnwys datblygiad Saesneg a Mathemateg pellach. Os nad oes gennych TGAU gradd C yn y naill bwnc pan fyddwch yn ymuno â ni, byddwch yn mynychu dosbarthiadau ar wahân i'ch helpu i weithio tuag at y lefel hon.

Rhagor o wybodaeth yn:

www.coleggwent.ac.uk/ms

GWEITHGAREDDAU SGILIAU

Tra bod eich cymhwyster yn bwysig iawn, mae'r sgiliau ychwanegol y mae cyflogwyr yn dweud y byddwch eu hangen yn y gweithle megis datrys problemau, gwaith tîm a gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun hefyd yn bwysig iawn. Trwy ein menter Gweithgareddau Sgiliau, gallwch gymryd rhan mewn gwirfoddoli, profiad gwaith a chlybiau a chymdeithasau. Yn ogystal ag edrych yn dda ar eich CV, gall y gweithgareddau hyn fod yn werth chweil ac yn llawer o hwyl.

Unwaith y byddwch yn cychwyn ar eich cwrs, byddwch yn cwblhau asesiad Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST). Nid yw'n ddim i boeni amdano, dim ond sicrhau ein bod yn eich darparu gyda'r lefel gywir o gymorth pan fyddwch yn cychwyn.

Rhagor o wybodaeth yn:

www.coleggwent.ac.uk/sgiliau

CYMWYSTERAU PRIFYSGOL

ER MWYN GRADDEDIGION

A oeddech yn gwybod y gallwch ennill cymhwyster prifysgol yn Coleg Gwent?

Mae gennym nifer cynyddol o gyrsiau addysg uwch, felly beth am gael cip ar beth bynnag sydd o ddiddordeb i chi, yn ein canllaw AU neu ar ein gwefan.

Cymwysterau lefel prifysgol ar eich stepen drws!

GALLWCH ASTUDIO CYRSIAU MEWN...

- ✔ Astudiaethau Ceffylau ac Anifeiliaid
- ✔ Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- ✔ Busnes, Rheolaeth a Thwristiaeth
- ✔ Diwydiannau Creadigol
- ✔ Iechyd a Gofal Cyhoeddus
- ✔ Dyniaethau ac Addysg
- ✔ Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg
- ✔ Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus

Darganfyddwch fwy, a gwnewch gais, yn:

www.coleggwent.ac.uk/au

Pam astudio cymhwyster prifysgol gyda Coleg Gwent?

Gallwch arbed arian ar deithio a llety yn ogystal ag ar eich ffioedd dysgu. Mae ein ffioedd cwrs yn is na'r mwyafrif o brifysgolion ac mae'n berffaith ar gyfer astudio addas o amgylch ymrwymiadau gwaith/bywyd.

Mae ein dosbarthiadau yn llai ac yn fwy agos atoch na lleoliad prifysgol fel y gallwch gael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch. Fel myfyriwr AU, gallech hefyd fod yn gymwys am gymorth ariannol a chymorthdaliadau i'ch helpu chi gyda chost astudio.

Ddim yn sicr a ydych chi'n bodloni'r gofynion?

Nid oes gennym ofynion caeth ar gyfer ein cyrsiau addysg uwch; gan ein bod ni'n eich ystyried chi fel unigolyn. Rydym yn edrych ar eich bywyd a'ch profiad gwaith, yn ogystal â chymwysterau blaenorol.

University of South Wales Prifysgol De Cymru | 1872 Prifysgol Aberystwyth University | University of Worcester | Cardiff Metropolitan University Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Pearson

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

ER EICH MWYN CHI

CYRSIAU RHAN AMSER
AR GYFER 21/22

www.coleggwent.ac.uk/rhanamser

ASTUDIAETH RAN AMSER
AR GYFER LLWYDDIANT LLAWN AMSER

GWNEWCH GAIS NAWR!

GALLECH FOD YN GYMWYS I GAEL CYFRIF DYSGU PERSONOL

AM DDIM

www.coleggwent.ac.uk/pla

helo@coleggwent.ac.uk
01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

PRENTISIAETHAU

Gwyddom nad yw addysg llawn amser yn addas i bawb.

Os ydych eisiau cychwyn gweithio, ond eisiau ennill cymwysterau ochr yn ochr â'ch sgiliau newydd a phrofiad, efallai mai prentisiaeth yw'r peth i chi.

YN COLEG GWENT, GALLWCH WNEUD PRENTISIAETHAU MEWN:

- ✓ Gosod Brics
- ✓ Gwaith Coed
- ✓ Peirianneg Drydanol
- ✓ Gosodiadau Trydanol
- ✓ Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- ✓ Peirianneg Fecanyddol
- ✓ Cerbydau Modur - cerbyd ysgafn a thrwm
- ✓ Cerbydau Modur - atgyweirio a phaentio corff cerbyd
- ✓ Adeiladu
- ✓ Plymio
- ✓ Weldio

Am fwy o wybodaeth ewch i:

www.coleggwent.ac.uk/prentisiaethau

Swydd go iawn

Rhowch eich sgiliau newydd ar waith yn y gweithle, a dewch i'r coleg, un diwrnod yr wythnos fel arfer.

Cymhwyster go iawn

Cymhwyster cenedlaethol sy'n cael ei gydnabod gan gyflogwyr ar hyd a lled y byd. Gwell sgiliau, gwell dyfodol!

Tâl go iawn

Ar ben y profiad o ddiwydiant, sgiliau ar gyfer y gweithle a'r cymwysterau, rydych hefyd yn cael eich talu!

Dyfodol go iawn

Mae prentisiaethau'n rhoi i chi'r sgiliau y mae cyflogwyr eisiau eu gweld. Gall hynny agor drysau i chi yn y dyfodol.

A ydw i'n gymwys?

I wneud Prentisiaeth, mae'n rhaid i chi fod:

- ✓ Wedi'ch cyflogi yn y sector perthnasol, gael contract cyflogaeth a chael eich talu yn unol â'r isafswm cyflog cenedlaethol
- ✓ Yn byw ac/neu yn gweithio yng Nghymru
- ✓ Ddim mewn addysg llawn amser
- ✓ Yn barod i gwblhau'r cymwysterau sydd yn tanategu'r brentisiaeth

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk

NEWYDD

PRENTISIAETH RHAGORIAETH CHWARAEON

GYDA NEWPORT COUNTY!

Cefais fy magu ar fferm ac roeddwn bob amser yn ffidlan gyda pheiriannau. Rwy'n mwynhau'n fawr yr agweddau ymarferol ar y cwrs yn y gweithdai ac mae fy nhiwtoriaid yn dda iawn. Roedd yn well gennyf y gweithdai ar gampws Crosskeys Coleg Gwent, o'i gymharu â cholegau eraill ac roedd adborth gan ffrindiau a oedd hefyd yn astudio yn Coleg Gwent yn wych. Ar hyn o bryd rwyf ar brentisiaeth â Doncaster.

Jesse Moody
Prentis Peirianneg
Fecanyddol Lefel 2

SAFON UWCH

Rydym yn cynnig ystod enfawr o bynciau Safon Uwch ar Gampws Crosskeys, Parth Dysgu Blaenau Gwent a'n Parth Dysgu newydd yn Nhorfaen, fel y gallwch ddewis y pynciau cywir ar gyfer eich dewis gyrfa.

Cewch gymorth hefyd gyda'ch cais UCAS a chyngor ar ysgrifennu eich datganiad personol er mwyn sicrhau bod gennych y siawns orau o gael eich derbyn yn y brifysgol o'ch dewis.

Gyda 32 pwnc Safon Uwch ar gael yn awr, rydym yn siŵr o gynnig cyfuniad i'ch helpu i fynd yn eich blaen.

99.9%

CYFRADD BASIO SAFON UWCH!

Es i ddigwyddiad agored, cwrdd â'r athrawon, edrych o gwmpas y campws a phenderfynu gwneud cais. Ro'n i'n nerfus i ddechrau... roedd y gefnogaeth yn anhygoel. Mae'n hawdd cael eich digalonni, gan ei fod yn gam mor fawr, ond cyn belled â'ch bod yn dewis pwnc am eich bod yn ei fwynhau, fe fyddwch chi'n iawn.

Cian Jones
Safon Uwch

- **Mae pob un o'n cyrsiau Safon Uwch yn 2 flynedd o hyd**
- **Cyfradd basio o 100% mewn 30 pwnc Safon Uwch ar draws Coleg Gwent**
- **Mae ein cyfradd llwyddo Lefel A wedi bod yn fwy na chyfartaleddau'r DU a Chymru am y 5 mlynedd diwethaf**



Beth nesaf?

Mae Lefel A yn agor y drws i lawer o opsiynau. Fel arfer, mae dros 80% o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio lefel uwch mewn Prifysgol neu yng Ngholeg Gwent. Neu, efallai y byddai'n well gennych ddefnyddio'ch cymwysterau i gael swydd neu wneud prentisiaeth Uwch neu Uwch.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	BG	C	T
Celf a Dylunio	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Bioleg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Astudiaethau Busnes	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cemeg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cyfrifiadureg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Drama ac Astudiaethau'r Theatr	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Economeg	2 Flynedd	✓	✓	✓
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	2 Flynedd	✓	✓	✓
Llenyddiaeth Saesneg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Astudiaethau Ffilm	1/2 Flynedd		✓	
Ffrangeg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Mathemateg Bellach	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Daearyddiaeth	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Y Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Dylunio Graffeg	1/2 Flynedd		✓	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1/2 Flynedd	✓		
Hanes	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
TGCh	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Y Gyfraith	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Mathemateg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Mathemateg Bur	1/2 Flynedd		✓	
Astudiaethau'r Cyfryngau	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cerddoriaeth	2 Flynedd	✓	✓	✓
Technoleg Gerddoriaeth	1/2 Flynedd	✓	✓	
Ffotograffiaeth	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Addysg Gorfforol	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Ffiseg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Seicoleg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Addysg Grefyddol	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cymdeithaseg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Sbaeneg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cymraeg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

CYFRIFEG, BUSNES A'R GYFRAITH

Yn ein byd modern, mae busnes a masnach yn rheoli bron bob agwedd ar ein bywydau, felly gallwch ddisgwyl i'r astudiaethau fod yn eang, ond gyda'r cyfle i arbenigo.

Maes Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol sydd â'r nifer uchaf o swyddi yng Nghymru, ac fel gwlad mae gennym enw da yn y maes hwn.

Gyda nod Cymru o fod y rhanbarth mwyaf cystadleuol (y tu allan i Lundain) yn y sector hwn erbyn 2021, pam na wnewch chi astudio gyda ni heddiw i lenwi un o'r 50,000 o swyddi gwag disgwyliedig? Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Mae rhai o'r cyflogau uchaf yn cael eu talu yn y sector hwn; gallai cyfrifydd sydd wedi cymhwyso'n llawn ennill oddeutu £70,000 y flwyddyn. Ffynhonnell: EMSI Q1 2018 Dataset

Beth nesaf?

Aiff llawer o'n myfyrwyr busnes a rheoli ymlaen i astudio mewn prifysgolion ledled y DU, un ai mewn cyd-destun busnes eang neu arbenigo mewn meysydd fel marchnata, y gyfraith, AD neu gyllid. Gallwch aros yn agosach at adref ac astudio cwrs prifysgol yn Coleg Gwent neu roi'r hyn a ddysgwyd gennych ar waith drwy fynd i mewn i swydd yn syth. Fel arall, pam na wnewch chi wella eich sgiliau ymhellach mewn cynllun hyfforddi neu brentisiaeth? Gall egin entrepreneuriaid ddechrau eu busnes eu hunain hyd yn oed!

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	BG	C	DC	T
Cyfrifeg Lefel 2	1 Flwyddyn			✓	
Cyfrifeg Lefel 3	1 Flwyddyn			✓	
Busnes, TG (Astudiaethau Galwedigaethol) Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Astudiaethau Busnes Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	✓	✓
Busnes Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓	✓	✓

Ymunais â'r cwrs hwn ar Lefel 1, ac ar ôl sylweddoli cymaint oeddwn yn ei fwynhau, penderfynais astudio ymhellach. Mae pawb yn gyfeillgar, mae'r grŵp cyfan yn cyd-dynnu'n dda ac mae'r athrawon yn rhagorol. Hoffwn fynd ymlaen i Brifysgol De Cymru i astudio Busnes gyda Chyllid. Ers ymuno â'r coleg, rwyf wedi bwrw ati a gwella fy sgiliau ac agwedd at astudio.

Robert Davies
Astudiaethau Busnes Lefel 2

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

AMAETHYDDIAETH A GOFAL ANIFEILIAID

Mae pob cyflogwr yn chwilio am brofiad ac mi fyddwch yn cael digon o brofiad ar ein cyrsiau amaethyddiaeth a gofal anifeiliaid ar ein campws gwledig ar safle Brynbuga.

Mae ein fferm weithiol yn cynnig y cyfle i ddarpar ffermwyr weithio gyda pheiriannau o safon diwydiant a bydd ein gwartheg a'n defaid yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i chi fynd gyda chi i'r byd gwaith.

Os ydych yn hoff o anifeiliaid bach, byddwch yn bwydo, yn glanhau ac yn gofalu am amrywiaeth o anifeiliaid bach (o gwningod a moch cwta i rywogaethau mwy egsotig megis ymlusgiaid a mulod) yn ein canolfan gofal anifeiliaid bach, sydd hefyd yn gartref i'n canolfan ailgartrefu cathod Blue Cross.

Os ydych yn hoffi ceffylau, byddwch wrth eich bodd â'n cyrsiau ceffylau! Gydag ysgolion y tu mewn ac yn yr awyr agored a'n cyfleusterau lifrai, byddwch yn dysgu sut i ofalu am geffylau, archwilio eu hymddygiad ac yn datblygu sgiliau marchogaeth mewn amgylchedd proffesiynol.

Beth nesaf?

Mae nifer o'n myfyrwyr amaethyddiaeth a gofal anifeiliaid yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ledled y DU ac mae llawer yn dewis astudio cyrsiau prifysgol yn Coleg Gwent megis Iechyd a Lles Anifeiliaid. Neu fel arall, gallech fynd yn syth i mewn i swydd; mae 64% o ffermwyr dros 55 oed, felly mae'r galw am recriwtiaid newydd yn uchel.Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	U
Amaethyddiaeth, Anifeiliaid, Diwydiannau'r Tir (Astudiaethau Galwedigaethol) Lefel 1	1 Flwyddyn	✓
Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad Lefel 2	1 Flwyddyn	✓
Amaethyddiaeth Lefel 3	2 Flynedd	✓
Gofal Anifeiliaid Lefel 1	1 Flwyddyn	✓
Gofal Anifeiliaid Lefel 2	1 Flwyddyn	✓
Rheolaeth Anifeiliaid Lefel 3	2 Flynedd	✓
Rheolaeth Cefn Gwlad Lefel 3	2 Flynedd	✓
Gofal Ceffylau Lefel 2	1 Flwyddyn	✓
Rheolaeth Geffylau Lefel 3	2 Flynedd	✓

Roedd gen i ofn o'r naid fawr o'r ysgol uwchradd ond mae'r coleg wedi fy helpu i dyfu mewn hyder cymaint fel na allaf aros i godi yn y bore. Fy nod tymor hir yw bod yn hyfforddwr marchogaeth.

Emily Davis
Rheoli Ceffylau/
Ceffylau Lefel 2

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

CELF A DYLUNIO, Y CYFRYNGAU, FFOTOGRAFFIAETH

Gyda mwy na 8,500 o swyddi i'w llenwi yn y sector erbyn 2024 yng Nghymru, pam na wnewch chi astudio gyda ni? Gall swydd fod yn aros amdanoch.

Gyda mwy na 8,500 o swyddi i'w llenwi yn y sector erbyn 2024 yng Nghymru, pam na wnewch chi astudio gyda ni? Gall swydd fod yn aros amdanoch chi!

Byddwch yn gallu defnyddio ein hadnoddau sy'n berthnasol i ddiwydiant gan gynnwys ystafelloedd cyfrifiaduron gydag Apple Mac a Chyfrifiaduron Personol amlgyfrwng gyda'r feddalwedd ddiweddaraf.

Ein sioeau diwedd blwyddyn yw'r llwyfan perffaith i chi arddangos eich gwaith gorau a denu sylw'r cyhoedd - profiad gwych i chi baratoi ar gyfer y brifysgol neu'r byd gwaith.

Mae'r diwydiannau creadigol yn gyrru twf economaidd ledled y DU, ac ar y trywydd i greu miliwn o swyddi'r diwydiannau creadigol newydd rhwng 2013 a 2030! Gallai hyn fod cymaint â 1,000 o swyddi'r diwydiannau creadigol yr wythnos! Ffynhonnell: www.nesta.org.uk

Beth nesaf?

Bydd llawer o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ym mhob cwr o'r DU, gan astudio cyrsiau creadigol cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd megis ffasiwn, ffotograffiaeth, dylunio graffigol, celfyddyd gain a mwy. Gallwch astudio amrywiaeth o gyrsiau mewn astudiaethau creadigol yn Coleg Gwent. Bydd eraill yn rhoi'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar waith mewn swyddi megis dylunio graffigol/gwefannau, dylunio ffasiwn ac animeiddio.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	BG	C	DC	T
Celf a Dylunio (Astudiaethau Galwedigaethol) Lefel 1	1 Flwyddyn			✓	✓
Celf a Dylunio Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	✓	✓
Celf a Dylunio Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓		✓
Celf a Dylunio Lefel 3 (Diploma Estynedig)	1 Flwyddyn			✓	
Celf a Dylunio (Celf a Dylunio, Ffotograffiaeth, Ffasiwn a Thecstilau) Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd		✓		
Graffeg Celf a Dylunio Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd				✓
Cyfryngau Digidol Celf a Dylunio Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓	✓	✓
Astudiaethau Sylfaen Celf a Dylunio Lefel 3/4	1 Flwyddyn			✓	
Celf a Cyfryngau Creadigol Lefel 1	1 Flwyddyn		✓		
Diploma Technegol mewn Cyfryngau Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Cyfryngau Creadigol (Dylunio Gemau, Dylunio Digidol) Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓	✓	✓

Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn celf ac ers yn ifanc iawn rwyf wedi bod yn tynnu lluniau, ond nawr hoffwn fynd i mewn i ddylunio gemau. Rwyf wedi dysgu cymaint ers bod yn Coleg Gwent ac mae'r athrawon yn eich cefnogi a'ch arwain. Rwyf eisiau gwneud dwy flynedd o ddylunio gemau yn Coleg Gwent ar ddiwedd y cwrs hwn ac yna mynd ymlaen i Brifysgol Caerdydd ar gyfer y drydedd flwyddyn.

Ayk Perera
Celf, Dylunio a'r Cyfryngau Lefel 3



Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

ARLWYO A LLETYGARWCH

Mae gweithio yn y diwydiant gwasanaeth yn golygu eich bod ar flaen y gad yn aml o ran y profiad cwsmer felly mae'n hanfodol bod y cwsmeriaid yn cael profiad cadarnhaol; o'r argraff gyntaf, i gynnyrch o ansawdd a gwasanaeth rhagorol.

Fel myfyriwr arlwyo a lletygarwch, byddwch yn dysgu yn ein ceginau masnachol, ac os astudiwch yn Crosskeys, byddwch yn cael profiad amhrisiadwy yn ein bwyty, Morels, sydd ar agor i'r cyhoedd. Gyda gweithlu o dair miliwn, a thwf flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r sector manwerthu yn gyfrannwr sylweddol i economi'r DU a all gynnig ystod anferth o gyfleoedd i chi.

Beth nesaf?

Mae mwy na chwarter miliwn o bobl yn cael eu cyflogi fel cogyddion yn y DU (Ffynhonnell: Gyrfa Cymru) ond mae swyddi eraill yn y sector arlwyo a lletygarwch yn cynnwys staff bar a gweini, rheoli gwestai a sommeliers.

ACADEMI FFORWM Y COGYDDION

Coleg Gwent yw'r coleg cyntaf i gynnig Academi Fforwm y Cogyddion yng Nghymru. Wrth weithio â'r Academi, mae ein myfyrwyr wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau yng Ngholeg Dinas Bryste, Gwesty'r Marriott Caerdydd a Bwyty Park House a Bar a Bwyty James Sommerin, gan weithio â chogyddion lleol. Mae hyn yn adeiladu eu repertoire profiad gwaith ac yn rhoi'r cyfle iddynt arddangos eu sgiliau i gyflogwyr lleol.

Yn y llun uchod: Myfyrwyr Coleg Gwent gyda'r Cogydd James Sommerin

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	C
Lefel Mynediad Lletygarwch ac Arlwyo	1 Flwyddyn	✓
Gwasanaethau Lletygarwch Lefel 1	1 Flwyddyn	✓
Coginio Proffesiynol Lefel 1	1 Flwyddyn	✓
Coginio Proffesiynol Lefel 2	1 Flwyddyn	✓
Coginio Proffesiynol Lefel 3	1 Flwyddyn	✓

Rwy'n mwynhau'r elfen ymarferol o'r cwrs yn fawr, gan gynnwys siarad i'r cwsmeriaid a'r theori y tu ôl sut mae'r bwyd yn cael ei wneud. Mae'r cwrs yn gydbwysedd da o theori ac ymarferol ac mae gennych chi hefyd y cyfleoedd gwych, fel gweithio gyda chogyddion yng Ngwesty Marriott Caerdydd.

Aled James
Coginio Proffesiynol Lefel 1

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

CYFRIFIADURA A THECHNOLEG DDIGIDOL

Mae'r byd digidol yn datblygu'n gyflym ac mae cyflogwyr angen timau blaengar i ddatblygu meddalwedd a rheoli systemau a rhwydweithiau.

Nawr mae'r DU - a'r byd cyfan - yn gwbl ddibynnol ar gyfrifiaduron ac mae caledwedd a meddalwedd yn datblygu ac yn newid drwy'r amser. Felly gall rhywun ag arbenigedd mewn cyfrifiaduron, y rhyngrwyd neu dechnoleg gwybodaeth yn gyffredinol ddefnyddio ei sgiliau a'i addysg i weithio mewn unrhyw sector o'i ddewis fwy neu lai; dyna i chi lawer o swyddi posibl.

Byddwch yn cael eich dysgu mewn swîts, TG cyfarparedig gyda mynediad i'r technolegau, caledwedd a'r feddalwedd ddiweddaraf. Mae gan ein darlithwyr brofiad ymarferol yn y diwydiant. Felly yn ogystal ag ennill gwybodaeth a'r cymwysterau sydd eu hangen i fod yn ymarferydd TG, cewch y sgiliau sy'n uniongyrchol berthnasol ar gyfer y gweithle.

Beth nesaf?

Bydd llawer o'n myfyrwyr cyfrifiadura a TG yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ym mhob cwr o'r DU, gan astudio cwrs technoleg cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd megis seiberddiogelwch, rhaglennu neu lunio rhwydweithiau. Gallwch astudio ystod o gyrsiau prifysgol yn Coleg Gwent. Neu, os yw'n well gennych roi eich sgiliau ar waith yn y gweithle, gallech gael swydd fel dadansoddwr cymorth tg, datblygwr meddalwedd, technegydd cymorth tg neu beiriannydd rhwydwaith ar lefel iau.

"Dewisais wneud y cwrs hwn gan fy mod yn mwynhau cyfrifiadura, mae'n cynnig yr opsiynau gorau ac yn ymdrin â llawer o feysydd. Fy nghyflawniad gorau hyd yma oedd dod yn drydydd mewn Cystadleuaeth Sgiliau Rhwydweithio a Diogelwch. Ar ôl coleg, hoffwn fynd i mewn i Seiberddiogelwch. Mae fy nghwrs yn ymdrin â'r maes hwn ond mae'r tiwtoriaid hefyd yn addysgu'r sgiliau meddal i mi, y byddaf eu hangen o ddydd i ddydd.

Jack Bright
Technoleg Ddigidol Lefel 3 (Career College)

GALLWCH DDYSGU MWY AM EIN CWRS CAREER COLLEGES MEWN TECHNOLEG DDIGIDOL AR DUDALEN 56

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	BG	C	DC	T
TGCh (Astudiaethau Galwedigaethol) Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Defnyddwyr TG / Cefnogi Systemau TGCh Lefel 2	1 Flwyddyn			✓	
Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol Lefel 2	1 Flwyddyn/ 2 Flynedd	✓	✓	✓	✓
Technoleg Gwybodaeth/Digidol Lefel 3 (Diploma Estynedig)	1 Flwyddyn/ 2 Flynedd	✓	✓		✓
Cyfrifiadureg Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓	✓	
Cyfrifiaduro Coleg Seibr Lefel 3	1 Flwyddyn	✓			

Trowch y dudalen i ddysgu mwy am

COLEG SEIBR CYMRU

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

COLEG SEIBR CYMRU

A ydych chi eisiau dilyn gyrfa o fewn y diwydiant digidol?

Gallwch ennill cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol sy'n gyfwerth â thri phwnc Safon Uwch mewn partneriaeth â chyflogwyr blaenllaw'r diwydiant.

Rydym yn rhan o Cyber College Cymru, menter newydd sbon Llywodraeth Cymru sy'n rhoi'r cyfle ichi ddechrau cwrs arloesol o astudio digidol. Bydd y Diploma Estynedig Cenedlaethol BTEC mewn Cyfrifiadura yn cynnwys cannoedd o oriau o fewnbwn diwydiant ynghyd â chwricwlwm ffres wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth â Cyber College Cymru.

Byddwch yn elwa o weithio gyda'n partneriaid diwydiant, Admiral, Fujitsu a Thales drwy fentora, darlithwyr gwadd, lleoliadau gwaith a gweithdai.

	Hyd	B
Cyfrifiaduro Coleg Seibr Lefel 3	1 Flwyddyn	✓

Beth nesaf?

Mae llawer o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion y DU neu'n mynd yn syth i gyflogaeth. Gallech hyd yn oed fynd ymlaen i astudio HND mewn Cyfrifiadura neu Ddiogelwch TG Gradd Sylfaen yn Coleg Gwent neu astudiaeth arall ar lefel prifysgol mewn pynciau fel cyfrifiadura, e-fasnach, hapchwarae, systemau gwybodaeth reoli neu reoli dara cronfa.

RYDYM NI WEDI CAEL EIN CYFLWYNO Â'R STATWS DYFARNIAD AUR FEL COLEG CYBERFIRST!

Mae'r cwrs Diploma Estynedig Cenedlaethol BTEC mewn Cyfrifiadura yn berffaith ar gyfer ymgeiswyr sydd:

- ✓ **Eisiau cwrs astudio sy'n cyfuno gwybodaeth cyfrifiadura a sgiliau ymarferol**
- ✓ **Yn frwd ynghylch gofynion technolegol newidiol y diwydiant**
- ✓ **Wedi eu hysgogi gan anghenion diwydiant a chyflogwr er mwyn bod yn barod am y gweithle**
- ✓ **Eisiau cyfuno gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth fusnes**
- ✓ **Yn dymuno dilyn gyrfa neu astudiaethau pellach yn y byd Seiber neu ddiwydiannau digidol eraill**

CYBER COLLEGE CYMRU

Admiral · Bridgend College Coleg Penybont · Coleg Gwent · FUJITSU · THALES · University of South Wales Prifysgol De Cymru

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

ESOL

Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf bydd ein cyrsiau yn helpu i wella eich sgiliau Saesneg.

Gallai hyn eich helpu i ddod o hyd i gyflogaeth, i gyfathrebu ag ysgol eich plentyn, y Ganolfan Byd Gwaith neu'ch meddyg, neu ddim ond gwneud eich bywyd yn y DU ychydig yn haws.

Dewisais y cwrs hwn i wella fy Saesneg gan yr oeddwn yn astudio gradd Meistr mewn Busnes a Thechnoleg yn Sbaen. Mae'r pynciau a astudiwyd yn yr ystafell ddosbarth wedi fy helpu gyda bywyd bob dydd yn ogystal â fy ngradd. Mae'r tiwtoriaid yn gydymdeimladol iawn. Pan gyrhaeddais, dim ond ychydig o Saesneg y gallwn ei siarad, ac roeddwn yn rhy nerfus i ofyn cwestiynau. Nawr, gallaf gynnal sgwrs yn hyderus.

Diana Maria Tabora Rivera
ESOL Lefel 1

Ar ein cyrsiau gallwch:

- Wella eich Saesneg - siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, gramadeg a geirfa
- Dysgu sut i ysgrifennu yn ffurfiol ac anffurfiol wrth lunio negeseuon e-bost, CVs a cheisiadau am swydd
- Dysgu am fywyd yn y DU
- Dysgu am y sgiliau gwaith rydych eu hangen i gael swydd neu ddyrchafiad yn y gwaith
- Dysgu am fathemateg gan gynnwys mesur, cyllidebu a sut i ddarllen amserlenni

	Hyd	DC
Sgiliau am Fywyd ESOL Lefel Mynediad 1	1 Flwyddyn	✓
Sgiliau am Fywyd ESOL Lefel Mynediad 2	1 Flwyddyn	✓
Sgiliau am Fywyd ESOL Lefel Mynediad 3	1 Flwyddyn	✓
Sgiliau am Fywyd ESOL Lefel 1	1 Flwyddyn	✓

REACH+

Os hoffech gofrestru ar un o'n cyrsiau, rhaid i chi yn gyntaf ymweld â'n Hwb Reach+ yn Llyfrgell Ganolog, Casnewydd. Yr Hwb yw'r pwynt canolog i unrhyw un sy'n dymuno astudio ESOL. Bydd y tîm yn asesu pob person ac yn eu cyfeirio at y cwrs a'r cymorth iawn. Gellir trefnu apwyntiadau drwy ffonio'r Hwb ar 01633 414917 neu gallwch alw heibio'r llyfrgell. Mae hon yn rhan o Brosiect Integreiddio Ffoaduriaid ReStart.

AilGychwyn ReStart

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Caiff y prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd. Gwneud rheoli llif ymfudo'n fwy effeithiol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

The ReStart: Refugee Integration project is part-funded through the European Union Asylum Migration Integration Fund. Making management of migration flows more efficient across the European Union.

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

ADEILADU

Os ydych yn dda am gynllunio, yn greadigol ac yn gallu defnyddio mathemateg sylfaenol fel arwynebeddau, cyfeintiau, mesuriadau a chostau unionlin, fe allech fod yn grefftwr gwych.

Gall gyrfa mewn adeiladu fod yn amrywiol ac wrth i'r sector gael ei daro gan brinder sgiliau, mae yna'n wastad alw am weithwyr adeiladu medrus. Mae gennym gysylltiadau gwych gyda chyflogwyr, sy'n golygu y cewch yr hyfforddiant ymarferol angenrheidiol, ynghyd â'r cyfle i rwydweithio.

Cewch brofiad ymarferol yn ein gweithdai â chyfarpar llawn ar y cyd â chrefftau eraill felly byddwch wedi'ch paratoi'n dda i weithio ar safle adeiladu. Byddwch hefyd yn dysgu'r theori i ategu eich sgiliau ymarferol yn ogystal ag iechyd a diogelwch, sy'n hanfodol ym mhob crefft. Mae gan ein darlithwyr flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant felly nid yn unig y bydd arbenigwyr yn eich dysgu, byddant hefyd yn rhoi cyngor i chi ar gael swydd ar ôl gadael coleg neu hyd yn oed ddechrau eich busnes eich hun.

Beth nesaf?

Mae llawer o'n myfyrwyr adeiladu yn mynd yn syth i gyflogaeth neu Brentisiaeth mewn crefft. Gallech hefyd gael yr opsiwn i astudio HNC/D mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig neu Beirianneg Sifil yng Ngholeg Gwent, neu gwrs cysylltiedig-ag-adeiladu mewn prifysgol arall.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

Ymunais â'r cwrs hwn am fy mod eisiau rhoi cynnig ar wahanol grefftau i weld pa un oedd orau gennyf. Mae'r cwrs yn wych gan ei fod yn ymarferol ac yn rhoi cyfle i chi roi cynnig ar gymaint o bethau - peintio ac addurno, gwaith coed, trydan a gosod brics. Roedd dod i Ddigwyddiad Agored yn fuddiol iawn. Roeddwn yn gallu siarad gyda'r tiwtoriaid a, phan ddes i'r coleg, roeddwn yn eu hadnabod nhw'n barod.

Tegan Clayden
Aml-Sgiliau Lefel 1

	Hyd	BG	DC
Sgiliau Adeiladu Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Gosod Brics Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Gosod Brics Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓
Gwaith Coed a Saerniaeth Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Gwaith Coed ar Safle Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓
Saerniaeth Mainc Lefel 2	1 Flwyddyn		✓
Mewnosodiad Trydanol Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Mewnosodiad Trydanol Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓
Peintio ac Addurno Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	
Peintio ac Addurno Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	
Astudiaethau Plymio Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Astudiaethau Plymio Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓
Astudiaethau Plymio Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓
Plastro Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	
Plastro Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	
Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓
Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓
Adeiladwaith (Peirianneg Sifil) Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

PEIRIANNEG A MODUROL

Mae peirianwyr yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt mewn maes penodol i wneud i bethau weithio, i wella pethau a datrys problemau.

Peirianneg yw cymhwysiad ymarferol a chreadigol gwyddoniaeth a mathemateg. Eich ffôn symudol a chyfrifiadur llechen newydd? Mae peirianwyr electroneg wedi cynorthwyo i wneud y rhain. Y car yr ydych yn teithio ynddo? Gwnaeth tîm o beirianwyr modurol hynny'n bosibl.

Byddwch yn hogi'ch sgiliau mewn gweithdai o'r radd flaenaf. Cewch fynediad at offer llaw a pheirianyddol traddodiadol, ynghyd â pheiriannau a reolir gan gyfrifiaduron a phrototeipio cyflym. Caniatâ ein labordai trydanol ac electronig i chi ddysgu drwy ddylunio, adeiladu, rhaglennu a phrofi datrysiadau i ddatrys problemau go iawn. Hefyd, golyga ein cysylltiadau agos â busnesau y dysgwch y technegau a'r sgiliau diweddaraf y mae cyflogwyr peirianneg eu hangen.

"Ar ôl rhoi cynnig i wahanol gyrsiau a swyddi, penderfynais o'r diwedd beth roeddwn i eisiau dilyn fy angerdd a gwneud cais am gwrs yng Ngholeg Gwent. Roeddwn bob amser yn cael trafferth gyda mathemateg a Saesneg ond mae'r tiwtoriaid yn cynnig cefnogaeth wych ac wedi fy helpu i wella'n fawr. Byddaf yn mynd ymlaen i astudio lefel 3 yn Coleg Gwent

Danial Pegg
Cynnal a chadw ac atgyweirio beic modur lefel 2

Beth nesaf?

Bydd llawer o'n myfyrwyr Peirianneg yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ym mhob cwr o'r DU, naill ai mewn cyd-destun cyffredinol neu'n arbenigo mewn meysydd megis peirianneg awyrofod, biofeddygol neu amgylcheddol. Os byddai'n well gennych roi'r hyn a ddysgwyd gennych ar waith yn y gweithle, gallech fynd ymlaen i gyflogaeth gan ffurfio rhan o'r 8,000 o beirianwyr sydd eu hangen yng Nghymru erbyn 2022. (Ffynhonnell: Gyrfa Cymru).

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

GANOLFAN DEUNYDDIAU UWCH DENNISON

Mae ein Parth Dysgu Blaenau Gwent yn gartref i Ganolfan Deunyddiau Uwch Dennison (DAMC), y cyntaf o'i math yng Nghymru. Mae'r canolfan, sy'n cynnwys pedair ystafell ddosbarth ac wedi'i hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig cyrsiau sy'n canolbwyntio ar ddeunyddiau cyfansawdd. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion ar ein gwefan.

	Hyd	BG	C	DC
Peirianneg (Astudiaethau Galwedigaethol) Lefel 1	1 Flwyddyn	✓		
Technolegau Peirianneg Lefel 1	1 Flwyddyn		✓	
Gweithrediadau Peirianneg Perfformio Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Peirianneg Drydanol/Electronig Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd		✓	
Peirianneg Lefel 2	1 Flwyddyn	✓		✓
Peirianneg Lefel 3	2 Flynedd			✓
Rhaglen Beirianneg Uwch (Llwybr Trydanol) Lefel 3	1 Flwyddyn		✓	
Rhaglen Beirianneg Uwch (Llwybr Mecanyddol) Lefel 3	1 Flwyddyn		✓	
Peirianneg (Gwneuthuriad a Weldio) Lefel 1	1 Flwyddyn			✓
Peirianneg (Gwneuthuriad a Weldio) Lefel 2	1 Flwyddyn			✓
Peirianneg (Mecanyddol) Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	✓
Peirianneg Fecanyddol Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd		✓	
Peirianneg Awyrenegol Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓		
Peirianneg Fodur Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓		
Atgyweirio Damweiniau(Corff a Phaent)Lefel 1	1 Flwyddyn			✓
Atgyweirio Damweiniau (Egwyddorion Paent) Lefel 2	1 Flwyddyn			✓
Atgyweirio Damweiniau (Egwyddorion Paent) Lefel 3	1 Flwyddyn			✓
Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn Lefel 1	1 Flwyddyn		✓	✓
Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn Lefel 2 (Diploma)	1 Flwyddyn		✓	✓
Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn (Cerbydau Cyflym) Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn Lefel 3 (Diploma)	1 Flwyddyn		✓	✓
Cerbyd Modur (diploma estyniedyg) Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Cerbyd Modur (lefel agored) Lefel 3	1 Flwyddyn		✓	
Pheirianneg (Trydanol) Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

TRIN GWALLT A THERAPI HARDDWCH

"Os oes gennych chi swydd sydd wrth eich bodd, bydd dim rhaid i chi weithio diwrnod yn eich bywyd"...

...Mantra llawer o weithwyr proffesiynol yn niwydiannau amrywiol, cyffrous a gwerth chweil gwallt, colur a therapïau cyflenwol. Maent yn aml ar frig arolygon cenedlaethol o'r gweithwyr hapusaf yn y DU. Cewch y profiad ymarferol y mae cyflogwyr yn chwilio amdano yn ein salonau a'n clinigau masnachol.

Bydd angen sgiliau pobl da arnoch i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r safon uchaf yn ogystal â chreadigrwydd ac ymwybyddiaeth o ffasiwn, fel y gallwch gynghori cleientiaid ynghylch yr hyn sy'n gweddu orau iddyn nhw. Mae gan ein darlithwyr flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant felly nid yn unig y bydd arbenigwyr yn eich dysgu, byddant hefyd yn rhoi cyngor i chi ar gael swydd ar ôl gadael coleg neu hyd yn oed ddechrau eich busnes eich hun.

Beth nesaf?

Gallwch ddatblygu eich astudiaethau yng Ngholeg Gwent a pharhau i wella eich sgiliau ymarferol mewn colur neu ddysgu sgiliau newydd mewn prostheteg, castio bywyd a gwneud masgiau. Petai'n well gennych fynd yn syth i gyflogaeth, mae'r opsiynau yn cynnwys gweithio mewn salon, sba neu fod yn berson trin gwallt, artist colur neu therapydd llawrydd.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

Cynhelir ein cyrsiau Therapïau Cyflenwol yn awr ar gampws Crosskeys!

	Hyd	BG	C	DC
Therapi Harddwch, Ewinedd a Therapïau Sba Lefel 2	1 Flwyddyn	✓		
Therapi Harddwch Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	✓
Therapi Harddwch Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Trin Gwallt Dysgu Carlam Lefel 1 a Lefel 2 cyfunol	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Harddwch Lefel 1	1 Flwyddyn		✓	
Trin Gwallt Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Trin Gwallt Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Trin Gwallt Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Gwall a Cholur y Cyfryngau Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Colur Theatrig Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Therapïau Cyflenwol Lefel 3	1 Flwyddyn		✓	
Therapïau Cyflenwol Lefel 4	1 Flwyddyn		✓	

Mae'r amrywiaeth o bethau yr ydym yn eu gwneud ar y cwrs yn wych, gydag ystod eang iawn o fodiwlau. Mae'r salon yn gymharol newydd a phawb mor groesawgar. Rwyf hefyd yn astudio Bagloriaeth Cymru sy'n cynnwys datblygu busnes, materion cymunedol a chyfoes, a fydd yn ddefnyddiol wrth i mi sefydlu fy musnes therapydd harddwch fy hun. Cymerais ran yng nghystadleuaeth WorldSkills, cyfle na fyddwn wedi ei gael mewn coleg arall efallai.

Elle Rogers
Therapi Harddwch Lefel 3

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

IECHYD, GOFAL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

Gall gyrfa mewn gofal roi llawer o foddhad i chi a gall gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl eraill.

Mae gweithio gyda phlant yn swydd heriol iawn, ond ychydig iawn o feysydd gwaith sydd mor amrywiol a buddiol. Mae gofalu am blant a helpu i'w haddysgu yn gyfrifoldeb mawr, a dyna pam y byddwch angen hyfforddiant cydnabyddedig i weithio mewn rôl gofal plant. Yn yr un modd, byddwch angen cymwysterau wrth weithio ym maes Iechyd a gofal cymdeithasol; pan fyddwch yn astudio gyda ni, byddwch yn darganfod drosoch eich hun sut beth yw bod yn rhan o'r sector gan ein darlithwyr sydd wedi cael profiad mewn sawl rôl iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r mwyafrif o'n cyrsiau yn cynnwys profiad gwaith a fydd yn rhoi'r profiad ymarferol i chi y mae cyflogwyr yn chwilio amdano, bydd hyn felly'n rhoi mantais i chi pan fyddwch wedi cymhwyso.

Gallwch ddysgu mwy am ein cwrs Career Colleges mewn Iechyd a Gofal ar **dudalen 56**

Beth nesaf?

Bydd llawer o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ym mhob cwr o'r DU, gan astudio cyrsiau gofal cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd megis gwaith cymdeithasol, gwyddor iechyd neu nyrsio. Gallwch astudio amrywiaeth o gyrsiau prifysgol yn Coleg Gwent neu fentro i fyd gwaith fel gweithiwr gofal, cynorthwyydd gofal plant neu weithiwr cefnogi; mae'r sector hynod amrywiol yn cynnig cannoedd o gyfleoedd.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	BG	C	DC	T
Gofal Plant, Iechyd, Gofal (Astudiaethau Galwedigaethol) Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Lefel 3	2 Flynedd	✓	✓	✓	✓
Lefel 2 Gofal, Proses Chwarae, Proses Ddysgu, a Datblygiad Plant*	1 Flwyddyn		✓		
Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol*	1 Flwyddyn		✓		
Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Lefel Craidd 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel Craidd 3	2 Flynedd	✓	✓	✓	✓

***Dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg yr addysgir y cwrs**

Roeddwn yn gwybod fy mod eisiau gwneud rhywbeth gyda gofal plant a phwnc sy'n canolbwyntio ar waith cwrs. Rwy'n hoff o'r synnwyr o annibyniaeth yr ydych yn ei gael yn Coleg Gwent. Rwy'n treulio tri diwrnod yr wythnos ar leoliad fel cynorthwyydd addysgu yn Ysgol Gynradd Brynbuga a'r ddau ddiwrnod sy'n weddill yn yr ystafell ddosbarth.

Ellen Rose Davies
Gofal Plant Lefel 3

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL (ILS)

Mae ystod o gyrsiau ar gael sy'n addas i fyfyrwyr o amrywiol gefndiroedd a gallu addysgiadol. Fe wnawn eich cynorthwyo i ddysgu rheoli eich arian eich hun, coginio eich bwyd eich hun, cynllunio eich gyrfa eich hun a byw bywyd annibynnol yn eich cymuned.

Ynghyd â dysgu sgiliau ymarferol, byddwn yn eich helpu i gynyddu eich hunanhyder i'ch cynorthwyo i fyw bywyd gweithgar. Byddwch yn astudio cymysgedd o sgiliau galwedigaethol a chreadigol fel celf a chrefft, coginio, garddio a TG, ynghyd â pharhau i wella eich llythrennedd, rhifedd a sgiliau hanfodol eraill. Byddwch hefyd yn mynd ar deithiau ac ymweliadau i leoliadau megis amwynderau, amgueddfeydd ac atyniadau twristiaeth lleol ynghyd â chyfranogi mewn gweithgareddau codi arian a menter.

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol gan ystyrir anghenion bob dysgwr ar sail unigol; byddwn yn asesu eich anghenion unigol i sicrhau eich bod yn cofrestru ar y cwrs iawn i chi. Byddwch yn cael y cyfle i fynychu rhaglen drosglwyddo lle gallwch gwrdd â'r tiwtoriaid, mynychu rhai gwersi a dod i adnabod y coleg cyn i chi ddechrau.

Beth nesaf?

Mae ein holl gyrsiau yn flwyddyn o hyd. Gallwch wneud cynnydd un ai o fewn ILS neu o bosib, ymgeisio am gyrsiau prif ffrwd yn y coleg.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	BG	C	DC	T
Sgiliau Byw'n Annibynnol Cyn Mynediad - Mynediad 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Astudiaethau Galwedigaethol Mynediad 3 (Tystysgrif Estynedig)	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Astudiaethau Galwedigaethol Mynediad 3 (Tystysgrif Estynedig)	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Paratoi at Interniaeth/ Profiad Gwaith Mynediad 3	1 Flwyddyn		✓		
Interniaeth/Profiad Gwaith Mynediad 3	1 Flwyddyn		✓		

Mae'r cwrs yn dda iawn gan eich bod yn cael gwneud pethau gwahanol a dysgu sgiliau newydd. Mae ychydig o astudio a gwaith ymarferol; byddwn yn argymell coginio a gwaith coed. Mae'r athrawon yn barod i helpu ac mae'r dosbarth yn fach ond yn ddymunol. Rwy'n gobeithio dod o hyd i swydd ar ôl gorffen y cwrs hwn.

Elliot Game
Sgiliau Byw'n Annibynnol

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

CERDD, DRAMA A DAWNS

Ewch i gael blas o'r byd adloniant yn Coleg Gwent a gwireddwch eich breuddwyd.

Mae Cymru yn gwneud enw iddi hi ei hun yn y diwydiannau creadigol, un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y wlad, drwy gynhyrchu sioeau teledu proffil uchel ac fel cartref i gerddorion a chantorion enwog. Pam na wnewch chi ychwanegu at y sêr hynny drwy astudio gyda ni heddiw?

Fel myfyriwr y Celfyddydau Perfformio cewch fynediad i'n stiwdios ymarfer o'r radd flaenaf, cyn troedio ar y llwyfan yn ein theatr llawn offer mewn perfformiadau byw ar gyfer teulu, ffrindiau a'r cyhoedd - profiad gwych i roi ar eich CV. Mae myfyrwyr cerdd yn mwynhau creu a pherfformio yn ein stiwdios recordio proffesiynol sydd â'r holl dechnolegau diweddaraf. Sicrha hyn eich bod â phopeth yr ydych ei angen i arddangos eich ochr greadigol.



Beth nesaf?

Gallwch chi wneud gradd sylfaen mewn cerddoriaeth a chelf perfformio. Mae llawer o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ac ysgolion drama ledled y DU gan gynnwys Academi Cerdd a Drama Llundain a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Neu, gallech aros yn agosach at adref a gwneud cymhwyster lefel prifysgol yn Coleg Gwent; gall myfyrwyr Gradd Sylfaen yn y Celfyddydau Perfformio ennill profiad ymarferol o'r busnes diolch i'n partneriaeth â Theatr Glan yr Afon yng Nghasnewydd. Bydd gennych hefyd yr opsiwn i roi beth a ddysgwch gyda ni ar waith mewn swyddi megis rheoli llwyfan, newyddiaduriaeth cerddoriaeth, actio, cyfarwyddo a llawer mwy!

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	BG	C
Cerddoriaeth Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓
Cerddoriaeth Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓
Technoleg Gerdd Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd		✓
Celfyddydau Perfformio Lefel 2	1 Flwyddyn		✓
Celfyddydau Perfformio Lefel 3 (Diploma Estynedig)	1 Flwyddyn		✓
Celfyddydau a Chynhyrchu Perfformio Lefel 3	2 Flynedd		✓

Doeddwn i ddim yn mwynhau Lefel A felly, mi wnes i newid i gerddoriaeth yn Coleg Gwent. Mae'r cwrs yn fanwl iawn ac wedi caniatáu imi ddysgu annibyniaeth. Mae'r tiwtoriaid yn ddefnyddiol iawn ac rydw i nawr i ffwrdd i Brifysgol Caerdydd i astudio busnes cerddoriaeth gyda breuddwydion o agor fy stiwdio fy hun yn y dyfodol!

Joshua Killbride
Perfformio cerdd Lefel 3

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

LLWYBR AT RADD/PRIFYSGOL

(MYNEDIAD AT ADDYSG UWCH)

Mae gradd prifysgol yn gyraeddadwy hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw gymwysterau traddodiadol blaenorol.

Bydd cwrs Mynediad i AU yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnoch i'ch paratoi ar gyfer y brifysgol.

Gallwch ddewis o amrywiaeth o lwybrau i'ch arwain chi at eich cwrs gradd dewisol, ac yna'r swydd ddelfrydol. Byddwch yn dysgu sut i fynd ati i astudio a'r technegau gwahanol y byddwch eu hangen i lwyddo.

Mae sawl un yn bryderus wrth gychwyn cwrs Mynediad i AU, yn enwedig os nad ydynt wedi bod mewn dosbarth ers peth amser. Mae ein tiwtoriaid yn ymwybodol o hyn ac yn ei gymryd i ystyriaeth yn eu haddysgu; ni fyddwn yn holi cwestiynau ar bethau nad ydych yn gyfarwydd â nhw. Er bydd rhai agweddau o'r cwrs yn heriol, prif bwrpas cwrs Mynediad i AU yw eich helpu i fod yn llwyddiannus.

Rydym hefyd yn cynnig cwrs Cyn Mynediad (Sgiliau ar gyfer Astudiaethau Pellach) sy'n canolbwyntio ar sgiliau academaidd i'ch helpu i fynd ymlaen at gyrsiau Mynediad.

Beth nesaf?

Mae Cyrsiau Mynediad i AU yn cael eu cynnwys yn nhariff UCAS a chânt eu derbyn yn eang gan brifysgolion y DU, ond dylech wirio gyda'r brifysgol benodol y dymunwch fynd iddi. Gallwch aros yn lleol a gwneud gradd brifysgol yn Coleg Gwent.

FELLY, PAM ASTUDIO LLWYBR AT RADD?

01

Bydd yn eich helpu i wella eich rhagolygon, gan wneud llwyddiant yn fwy tebygol a'ch helpu i wireddu'r yrfa ddelfrydol honno.

02

Mae'n profi bod gennych sgiliau gwerthfawr megis astudio'n annibynnol a chwrdd â therfynau amser.

03

Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gofyn am radd, mae'n dangos eich bod yn gymwys.

04

Mae'n profi y gallwch ymrwymo i rywbeth, ymdopi â gwaith caled a mynd pob cam o'r ffordd.

05

Yn ogystal â rhoi cymhwyster i chi, byddwch yn ennill llu o brofiadau a byddwch yn sicr yn gwneud cysylltiadau i'ch helpu yn y dyfodol.

Llwyddodd dros chwarter o fyfyrwyr a oedd yn astudio eu gradd gyntaf i ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf yn 2017/18, cynnydd fymryn o dan 10% o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

Darganfyddwch mwy am ein cyrsiau Addysg Uwch ar tudalen 20

	Hyd	BG	C	DC	T
Sgiliau Astudiaeth Bellach Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Mynediad at Wyddoniaeth Fforensig/Gwyddorau Biolegol	1 Flwyddyn				✓
Mynediad at AU - Celf a Dylunio	1 Flwyddyn	✓			
Mynediad at AU - Busnes a Chyllid	1 Flwyddyn	✓			
Mynediad at Nyrsio ac Iechyd Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Mynediad at AU- Gwyddoniaeth/Gwyddorau Biolegol Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓		
Mynediad at y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol Lefel 3	1 Flwyddyn	✓		✓	
Mynediad at AU - Gwyddor Feddygol ac Iechyd	1 Flwyddyn			✓	

Roedd angen cymhwyster arnaf i fynd ymlaen â ffisiotherapi. Er fy mod yn gweithio fel Cynorthwyydd Ffisio, roeddwn yn teimlo'n rhwystredig yn methu â symud ymlaen yn fy rôl gyfredol, ond mae dod i Coleg Gwent wedi fy ngalluogi i oresgyn y rhwystr hwnnw. Roedd fy athrawon yn frwdfrydig ac wedi'u cymell i gael eu myfyrwyr i fynd i'r brifysgol ac i wneud y gorau gallant ar eu cwrs.

Rosalind Spooner
Mynediad i'r Gwyddorau Iechyd a Meddygol

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

GWYDDONIAETH

Roboteg, deallusrwydd artiffisial, gwyddoniaeth fiofeddygol a chyfrifiadureg fforensig yw ond rhai o'r gyrfaoedd cyffrous a chyfleoedd prifysgol sydd ar agor i fyfyrwyr gwyddoniaeth gymhwysol.

Byddwch yn dysgu sut i gymhwyso egwyddorion gwyddonol i broblemau ymarferol mewn addysg er mwyn canfod atebion i wella clefydau, datrys problemau gwyddonol neu ddatblygu technoleg. Byddwch yn cael profiad o lygad y ffynnon yn ein labordai gwyddoniaeth pwrpasol, y cyfan ag offer safonol y diwydiant. Yn ogystal â darlithoedd arbenigol byddwch yn cael eich cefnogi gan dechnegwyr sydd â chyfoeth o brofiad diwydiannol.

Fel un o'r pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), gall cymhwyster mewn Gwyddoniaeth agor y drysau i nifer o yrfaoedd cyffrous yn y dyfodol.

Mae llawer o gwmnïau technegol sy'n dibynnu ar weithwyr proffesiynol ym maes Gwyddoniaeth yn gwmnïau byd-eang. Felly, gallai gyrfa yn y sector hwn eich gweld yn teithio'r byd, yn datrys heriau rhyngwladol, neu'n gweithio mewn labordai fforensig yn y DU neu dramor.

Beth nesaf?

Bydd llawer o'n myfyrwyr Gwyddoniaeth yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ym mhob cwr o'r DU, gan astudio cwrs gwyddoniaeth cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd megis gwyddorau bywyd neu ddynol, neu seicoleg. Fel arall, gallwch astudio cymhwyster prifysgol yn Coleg Gwent. Bydd eraill yn rhoi'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar waith mewn swyddi megis swyddi gwyddonol ar lefel iau.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	C	DC	T
Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓	✓

Penderfynais ddilyn y cwrs hwn oherwydd mae wedi bod o ddiddordeb i mi o oedran ifanc iawn. Roedd y cwrs yn ddiddorol iawn ac roedd y tiwtoriaid yn ddefnyddiol iawn. Fy nod tymor hir yw bod yn beiriannydd petroliwm, bydd y cwrs hwn yn caniatáu imi fynd ymlaen i lefel 3, ac yna i'r brifysgol a chael gradd. Byddwn yn bendant yn argymell!

Noor Aldahdh
Gwyddoniaeth Lefel 2

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

CHWARAEON, TEITHIO A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Chwareon & Hamdden

Dilynwch ôl traed eich arwyr chwaraeon. P'un ai oes gennych ddiddordeb mewn hyfforddi, rheoli, ymarfer corff, gwyddoniaeth neu therapi, mae gennym gyrsiau fydd yn eich paratoi chi ar gyfer y gyrfaoedd cyffrous hyn. Yn y dyfodol gallech fod yn gweithio mewn clwb iechyd, fel hyfforddwr gweithgareddau awyr agored neu'n gweithio yn y diwydiant hamdden. Mae yna hefyd ddigonedd o dimau chwaraeon y gallwch ymuno â nhw ar bob campws.

Gwasaneathau Cyhoeddus

Efallai fod gennych ddiddordeb i fod yn heddwas neu'n barafeddyg? Neu efallai wedi breuddwydio am fod yn fôr-filwr neu eisiau bod yn ddiffoddwr tân? Bydd ein cyrsiau gwasanaethau cyhoeddus yn eich helpu chi i gyrraedd y nod. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn sail i'n cymunedau, ac mae'r rheiny sy'n dilyn gyrfa mewn un o'r gwasanaethau mewn lifrai neu wasanaeth heb lifrai yn chwarae rhan bwysig o fewn cymdeithas. Drwy astudio gyda ni, byddwch yn cael y cyfle i ddod yn gadét heddlu mewn partneriaeth â Heddlu Gwent.

Teithio & Twristiaeth

Os ydych yn barod i gychwyn ar yrfa werthfawr, gall ein cyrsiau teithio a thwristiaeth fynd â chi i gyfeiriad un o'r diwydiannau mwyaf cyffrous a bywiog yn y byd. Byddwch yn astudio pynciau megis cyrchfannau teithio, gweithrediadau teithio a rôl cynrychiolwyr cyrchfannau. Byddwch hefyd yn dysgu sgiliau trosglwyddadwy megis gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu fel y byddwch yn barod ar gyfer cyflogaeth.

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

	Hyd	BG	C	B
Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus (Astudiaethau Galwedigaethol) Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓	✓
Iechyd, Ffitrwydd a Chyfarwyddyd Ymarfer Corff Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	✓
Hyfforddiant Personol / Ffitrwydd a Chyfarwyddyd Lefel 2/3	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Hyfforddiant Personol a Chyfarwyddyd Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Chwaraeon Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Chwaraeon (Datblygiad, Hyfforddi a Ffitrwydd) Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd	✓	✓	✓
Tylino mewn Chwaraeon ac Atgyfeirio Ymarfer Corff Lefel 3	2 Dymor			✓
Lletygarwch, Teithio a Thwristiaeth (Astudiaethau Galwedigaethol) Lefel 1	1 Flwyddyn		✓	
Teithio a Thwristiaeth Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Teithio a Thwristiaeth Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 Flynedd		✓	

Cynt nid oeddwn yn gwybod beth oeddwn ei eisiau. Deuthum i'r diwrnod agored a chefais amlinelliad o'r cwrs a'i gynnwys. Nid yw pobl yn sylweddoli bod mwy i'r cwrs hwn; gallwch fynd i mewn i bethau fel rheoli digwyddiadau neu farchnata. Fy nghyflawniad mwyaf yw cael cynnig gan brifysgol!

Sophie Davies
Teithio a Thwristiaeth Lefel 3

ACADEMI RYGBI'R DREIGIAU

Campws Crosskeys yn gartref i Academi Dreigiau Coleg Gwent, lle mae chwaraewyr yn ennill cymwysterau ochr yn ochr â'u 10 awr o hyfforddiant yr wythnos. Neu efallai fod pêl-droed i chi? Pam na wnewch chi ymuno ag Academi Bêl-droed Coleg Gwent! Gan elwa o'r cyfleusterau yn stadiwm Cwmbrân, byddwch yn hyfforddi ochr yn ochr â'ch astudiaethau.

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

CAREER COLLEGES

A ydych ar y blaen gyda'r dechnoleg ddiweddaraf? A yw gweithio ym meysydd meddygaeth, gofal iechyd neu ofal plant o ddiddordeb i chi?

Coleg Gwent yw'r UNIG Career College yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau ym meysydd iechyd a gofal a thechnoleg ddigidol, drwy gydweithio â chyflogwyr lleol i ddarparu cymwysterau ac addysg sy'n cael eu harwain gan y diwydiant.

Roedd astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol erioed yn opsiwn i mi, roeddwn eisiau gweithio gyda phobl sydd ag anawsterau dysgu. Cefais fy nghyflwyno i'r cwrs Career Colleges hwn gan diwtor; rwy'n gwneud profiad gwaith ar ddau ddiwrnod ac yn astudio tri diwrnod yn y coleg. Rwyf wrth fy modd yn gweithio yn fy lleoliad, rwyf am fynd yn syth i mewn i waith ar ôl fy nghwrs.

Chloe Leigh Rouse
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Career Colleges

Beth yw Career Colleges?

Mae Career Colleges yn rhedeg cyrsiau wedi'u dylunio'n benodol gyda chyflogwyr; gall myfyrwyr gymryd rhan mewn prosiectau go iawn y diwydiant ac ennill profiad amhrisiadwy yn y gweithle. Felly, gallwch fod yn sicr eich bod yn dysgu YN UNION beth sydd ei angen ar gwmnïau gan gyflogeion posibl, a gwarantu gris i chi ar yr ysgol yrfa.

Ai dim ond yn Coleg Gwent y gallaf astudio'r cyrsiau hyn?

Ie, ni yw'r unig goleg yng Nghymru sy'n cynnig y cyrsiau hyn i fyfyrwyr. Byddwch yn dysgu gan gyflogwyr lleol yn eu hamgylchedd gwaith ac yn cael mentora agos gan ein darlithwyr profiadol.

Mae nifer o fyfyrwyr ar gyrsiau cyffelyb wedi mynd ymlaen i brentisiaethau, y brifysgol a chyflogaeth.

Pa gyrsiau sydd ar gael?

- ✔ Technolegau Digidol Career Colleges Lefel 3 (dysgwch beth oedd gan un o'n myfyrwyr presennol i'w ddweud am y cwrs ar dudalen 35)
- ✔ Iechyd a Gofal Career Colleges City & Guilds

Am fwy o wybodaeth a I ymgeisio, ewch I'n wefan:
www.coleggwent.ac.uk/careercolleges

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk
helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)